



## TELERAU AC AMODAU'R YMWELIAD YMGYNGHORI

Mae'r ddogfen hon yn nodi telerau'r cytundeb i Gyngor Sir Caerfyrddin ddarparu gwasanaeth cynnal busnes i'r busnes a elwir yn :-

Enw'r Busnes: .....

Cyfeiriad: .....

.....Côd Post: .....

Rwyf i, (enw)..... (swydd).....

y busnes uchod yn cytuno i dalu am y ffioedd a nodir isod am ddarpariaeth y gwasanaeth uchod, AC rwy'n derbyn yr amodau a nodir yn y cytundeb hwn.

E-bost: ..... Rhif Ffôn Symudol: ..... Llinell dir:.....

Llofnod:..... Dyddiad:.....

**£45.00 yr awr am y gwasanaeth.**

Natur y Gwasanaeth a ddarperir - Cyngor ar Hylendid Bwyd.

***Gellir hefyd godi ffi ychwanegol o £45.00 pan fo angen y cyngor hwnnw yn ysgrifenedig, ac mae'n rhaid hefyd talu am hwn ymlaen llaw.***

### 1. DEHONGLIAD

1.1 Yn y cytundeb hwn:

1.1.1 Mae'r "Awdurdod" yn golygu Cyngor Sir Caerfyrddin, ei weithwyr a'i gynrychiolwyr.

1.1.2 Mae'r "Busnes" yn golygu'r busnes a nodir uchod ac yn cynnwys: gweithredwr y busnes bwyd, unrhyw berchennog, endid cyfreithiol arall, gweithiwr a chynrychiolydd y Busnes neu rywun sy'n gysylltiedig â'r Busnes.

### 2. CWMPAS A RHAGAMOD.

2.1 I osgoi unrhyw amheuaeth, ni fydd unrhyw beth yn y Cytundeb hwn yn:

2.1.1 llyffetheirio disgresiwn yr Awdurdod i arfer unrhyw hawl neu rwymedigaeth y mae gan yr Awdurdod yr hawl i'w arfer dan y gyfraith; neu

2.1.2 ei wneud yn ofynnol i'r Awdurdod weithredu neu i beidio â gweithredu mewn unrhyw ffordd sy'n groes i unrhyw ofynion cyfreithiol.

### **3. GOBLYGIADAU'R AWDURDOD**

3.1 Mae'r Awdurdod yn cytuno y bydd y Gwasanaethau yn cael eu darparu:

3.1.1 gan staff sydd â chymwysterau addas ac mewn ffordd broffesiynol a chwrtais;

3.1.2 â gofal a sgil rhesymol;

3.1.3 yn unol ag unrhyw derfynau amser y cytunwyd arnynt rhwng y partiön;

3.1.4 heb ragfarnu gofynion neu ddyletswyddau cyfreithiol eraill.

I osgoi unrhyw amheuaeth, ni fydd unrhyw beth yn y Cytundeb hwn yn llyffetheirio disgresiwn yr Awdurdod mewn unrhyw ffordd i gymryd pa bynnag gamau y mae'n barnu sy'n briodol yn yr amgylchiadau gan gynnwys, os oes angen, cymryd camau gorfodi priodol yn unol â'i bolisi gorfodi.

3.2 Mae'r Busnes yn cytuno y bydd yn rhoi i'r Awdurdod y wybodaeth a'r cyngor y gallai'r Awdurdod fynnu'n rhesymol er mwyn galluogi neu gynorthwyo'r Awdurdod i ddarparu'r gwasanaeth y cytunwyd arno.

### **4. CODI TÂL A THALU.**

4.1 Mae'n rhaid i'r Busnes dalu'r taliadau y cytunwyd arnynt uchod i'r Awdurdod cyn y darperir y gwasanaeth.

4.2 Bydd y taliadau yn cynnwys TAW.

### **5. CWMPAS A CHYNGOR AC ATEBOLRWYDD.**

5.1 Mae'r Partiön yn cytuno:

5.1.1 y rheswm sylfaenol y mae'r Awdurdod yn darparu cyngor yw i gynorthwyo'r busnes i gydymffurfio â'r gyfraith;

5.1.2 efallai na fydd y cyngor na'r arweiniad a ddarperir gan yr Awdurdod yn atal gweithredu camau gorfodi yn y dyfodol;

5.1.3 efallai bydd y cyngor a'r arweiniad a ddarperir gan yr Awdurdod yn cael eu disodli yn y dyfodol, a'r

5.1.4 Busnes fydd yn gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth.

5.2 Yn ogystal â'i brif ddiben (4.1 uchod) gallai'r gwasanaeth hefyd roi cyngor er mwyn cynorthwyo'r busnes o ran rheoli busnes bwyd yn llwyddiannus, helpu i gyflawni arferion diogelwch bwyd da neu gyrraedd y safonau uwch y mae'r busnes o bosibl am eu cyrraedd.

5.3 Derbyn bod yr holl delerau, amodau, gwarantau a'r sylwadau a fynegwyd yn glir yn y cytundeb hwn, a fyddai'n cael eu cymhwyso neu'u hawgrymu (yn statudol neu fel arall) neu mewn perthynas â'r Cytundeb hwn, yn cael eu heithrio i'r graddau eithaf a ganiateir dan y gyfraith.

5.4 Ni fydd y naill barti na'r llan yn eithrio nac yn cyfyngu eu hatebolrwydd i'r parti arall ar gyfer twyll, nac ar gyfer marwolaeth neu anaf personol a achoswyd gan esgeulustod (fel y diffiniwyd yn y Ddeddf Telerau Annheg mewn Contractau 1977), nac ar gyfer unrhyw atebolrwydd arall nad yw'n bosibl eithrio na chyfyngu atebolrwydd o dan y gyfraith.

5.5 Bydd atebolrwydd yr Awdurdod i'r Busnes sy'n deillio o'r Cytundeb hwn neu sy'n gysylltiedig â'r Cytundeb (boed dan gyfraith contract, camwedd, esgeulustod, neu fel arall) yn gyfyngedig i'r cyfanswm a delir gan y Busnes ar gyfer y gwasanaethau hynny mewn blwyddyn.

5.6 Ni fydd y naill barti yn atebol i'r llall, dan unrhyw amgylchiadau sy'n gysylltiedig â'r Cytundeb hwn (boed dan gyfraith contract, camwedd, esgeulustod, neu fel arall) am unrhyw golled neu ddifrod anuniongyrchol neu ganlyniadol, neu ar gyfer unrhyw un o'r colledion canlynol (boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol).

5.6.1 colli unrhyw elw.

5.6.2 colli busnes;

5.6.3 colli cyfle.

5.6.4 colli refeniw;

5.6.5 colli ewyllys da;

5.6.6 colli contractau a ddisgwylir; a/neu

5.6.7 colli cynilion disgwylidig.

5.7 Mae'r Busnes yn cytuno na fydd unrhyw aelod unigol o staff yr Awdurdod yn atebol i'r Busnes (boed dan gyfraith contract neu gamwedd, gan gynnwys esgeulustod) yn deillio o ddarpariaeth y Gwasanaethau pan fo'r unigolyn hwnnw wir yn credu bod y weithred y cwynwyd amdano yn unol â'i hawliau neu fod ei ddyletswyddau yn ei orfodi neu'n ei hawlio i gyflawni'r weithred honno a'i fod wedi gweithredu'n rhesymol (ac ni fydd y Busnes yn dwyn unrhyw hawliad yn erbyn aelod unigol o staff yr Awdurdod mewn sefyllfaoedd o'r fath).

5.8 Ni fydd yr ymweliadau a wneir dan y Cynllun Ymgynghori ar Hylendid Bwyd yn cymryd lle yr arolygiadau rheolaidd dirybudd. Bydd y swyddog a benodwyd i gynnal yr ymweliad ymgynghori gan amlaf yn wahanol i'r un a fydd yn cyflawni'r arolygiad rheolaidd.

## **6. CYFRINACHEDD**

6.1 Rhaid i bob parti:-

6.1.1 drin holl Wybodaeth Gyfrinachol y parti arall yn gyfrinachol a'i diogelu yn unol â hyn; ac

6.1.2 sicrhau nad ydynt yn datgelu unrhyw Wybodaeth Gyfrinachol sy'n eiddo i'r parti arall i unrhyw berson arall heb gael caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan y parti arall, ac eithrio'r fath bobl ac i'r graddau hynny sy'n ofynnol i gydymffurfio â'r gyfraith;